

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 9 Gorffennaf 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.45 0300 200 6565
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

(Rhag-gyfarfod)

(13.45 – 14.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

2 Papur(au) i'w nodi

(14.00 – 14.05)

(Tudalennau 1 – 3)

2.1 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Llythr gan Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Felindre (28 Mehefin 2018)

(Tudalennau 4 – 12)

2.2 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (3 Gorffennaf 2018)

(Tudalennau 13 – 14)

3 Cyllid cychwynol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect

Cylchffordd Cymru: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

(14.05 – 14.20)

(Tudalennau 15 – 19)

PAC(5)-19-18 Papur 1 – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth 2

(14.20 – 15.30)

(Tudalennau 20 – 41)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil



Tracy Myhill – Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Sian Harrop–Griffiths – Cyfarwyddwr Strategaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Lynne Hamilton – Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

(Egwyl)

(15.30 – 15.40)

5 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth 3

(15.40 – 16.45) (Tudalennau 42 – 61)

Len Richards – Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bob Chadwick – Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

(16.45)

Eitem 7 a'r cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2018

7 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.45 – 17.00)

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/4751>

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Gorffennaf 2018

Amser: 14.01 – 16.40

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Vikki Howells AC Lee Waters AC
Tystion:	Steve Webster, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Allison Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf Dr Jacinta Abraham, Ymddiriedolaeth GIG Felindre Stuart Morris, Ymddiriedolaeth GIG Felindre Mark Osland, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Swyddfa Archwilio Cymru:	Huw Vaughan Thomas CBE – Archwilydd Cyffredinol Cymru Mark Jeffs Dave Thomas
Staff y Pwyllgor:	Fay Bowen (Clerc) Meriel Singleton (Ail Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Clerc)



1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC ac Adam Price AC. Ni chafwyd dirprwyon.
- 1.3 Datganodd Lee Waters AC fuddiant ar gyfer Eitem 4 gan fod ei wraig yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

2 Papur(au) i'w nodi

- 2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Gohebiaeth y Pwyllgor

- 3.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: sesiwn dystiolaeth 1

- 4.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Allison Williams, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Steve Webster, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fel rhan o'r ymchwiliad i Weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.
- 4.2 Cytunodd Steve Webster i anfon rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyfran yr arbedion nad oeddent yn digwydd eto yn 2017–18.

5 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: sesiwn dystiolaeth 4

- 5.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Jacinta Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Mark Osland, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodeg, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a Stuart Morris, Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodeg, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, fel rhan o'r ymchwiliad i Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

- 6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Blaenraglen waith: Tymor yr hydref 2018

9.1 Nododd yr Aelodau Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer tymor yr hydref 2018 a chytuno arni.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth
GIG Felindre
Velindre NHS Trust



Velindre NHS Trust Headquarters
Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG Felindre

2 Charnwood Court
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Cardiff
CF15 7QZ

Tel/Ffon : (029) 2061588
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

Our ref: SH-rc/2018

Nick Ramsay AM
Chair of the Public Accounts Committee
National Assembly for Wales,
Senedd,
Cardiff Bay Link Road,
Cardiff
CF10 4PZ

28th June 2018

Dear Mr Ramsay

NHS Wales Informatics Services

I have been asked to respond to several specific questions following your receipt of a letter from the Auditor General at your meeting on the 11th June. My apologies that I am unable to attend in person but I will address each question in turn:

- What do you see as yours and the Trust's wider role in addressing these concerns.

In terms of my role as lead CEO for informatics I provide the focal point for the Chief Executives group in discussing informatics issues, plans, and strategies but operating within existing governance arrangements and not overriding them. This involves liaising with the Assistant Directors of informatics group (which acts as a peer group for the service), NWIS, and government in developing strategies and ways of working. Therefore, in this instance there are no specific responsibilities as a result of the role in addressing the concerns which have been raised, however, I have updated Chairs and other Chief Executives regarding progress and developments.

The hosting agreement (Feb 2011) in place between the Trust and Welsh Government, defines that;

- NWIS will be directed by WAG in respect of both strategy and operational management.
- Velindre NHS Trust will host NWIS on an "arm's length" basis only, and will not engage in a direct managerial relationship with NWIS and its functions.

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg
This Trust welcomes correspondence in Welsh



In addition, the hosting agreement specifies that;

- NWIS agrees to comply with Velindre NHS Trust policies and procedures, for example Standing Orders, Standing Financial Instructions, and HR Policies and Procedures.

In respect of this latter point, and further to reports from the NHS Wales Delivery Unit (March 2017) and NWSSP Internal Audit on NWIS Value for Money (July 2017), the Trust strengthened the governance arrangements in respect of Serious Incident Reporting under Putting Things Right Regulations (PTR), and wider governance and assurance requirements. Following the Delivery Unit report, Velindre NHS Trust, as a **responsible body** under PTR, has aligned processes within NWIS following meetings between the Trust Executive lead for PTR, NWIS Directors and senior managers. As a result quarterly reporting of NWIS technical SI events that impact on patient safety are integrated into the Trust's governance arrangements to the Board and with Welsh Government through the quarterly Quality & Delivery performance meetings.

All statutory NHS organisations in Wales are **responsible bodies** under the PTR Regulations and each organisation will need to assess the scale and the impact of an NWIS technical event in relation to their patient populations across primary, secondary and tertiary services and to report this to Welsh Government in accordance with the Serious Incident reporting process.

The Trust agreed with Welsh Government following the Delivery Unit report to establish a national working group with representation from the Delivery Unit, all Health Boards and Trusts in Wales and the group has developed a governance framework to clarify roles and responsibilities across the health sector, in accordance with the Putting Things Right regulations. A feasibility exercise has been conducted to test and refine the proposed framework which will now be implemented shortly and formatively evaluated in 12 months' time.

To share wider system learning arising from patient safety incidents, it is proposed that thematic reports will be drawn from Incident investigations and provided to the National Quality & Safety Forum. This will be discussed further with Welsh Government in the coming weeks.

In summary, the Trust is a responsible body under PTR along with all other HB and Trusts in Wales and each statutory body will need to ensure that it discharges its duties for serious incidents as required by the Regulations. The Trust does not get involved in the root cause analysis of the technical incidents, unless of course, the incident has

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg
This Trust welcomes correspondence in Welsh

an impact on services provided by the Trust as reflected in the Trust Board report provided by the Auditor General.

- Whether the lines of communication for raising concerns are sufficiently clear, in the context of the governance issues that we have already explored as part of our inquiry.

Clearly given the issues raised by Boards there are improvements required with respect to lines of communication to ensure that assurance is received on a timely basis by individual Boards. This will be improved through the implementation of the above framework mentioned earlier. However, arrangements are in place operationally through the national Infrastructure Management Board and the Informatics Planning and Delivery Board to provide opportunities to both raise concerns and receive assurance.

- What action have you taken personally to respond to concerns that have been raised with you (both within the Trust and by other health boards, notably ABM UHB)

Within the Trust we have held a meeting at senior level with NWIS to consider further ways of mitigating the risk of system outages in relation to CANISC and to explore opportunities to automate some aspects of our business continuity response.

We have also discussed our business continuity response to ensure that we have the most effective response in place should further outages occur.

On a wider basis I have met with NWIS, WG, and facilitated discussions with both Chairs and Chief Executives in relation to further improvements which could be made.

- Whether you or NWIS has yet provided a formal response to the concerns that have been raised in recent months and whether other health boards have been raising similar concerns to those expressed by ABMUHB and identified by the Trust. If there has been a formal response, then we would welcome sight of it.

After liaising with WG colleagues, I responded, in my role as Chief Executive of the host organisation, to Tracy Myhill, CEO of ABMu on 20th June noting that the concerns raised and assurances being sought sat outside of the responsibilities of Velindre Trust as host. I advised that the letter had been passed to the Director of NWIS who had liaised with WG and has since responded directly to ABMu.

Attached is my response sent to Tracy Myhill at ABMu HB, together with the response from Andrew Griffiths in NWIS, sent directly to ABMu.

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg
This Trust welcomes correspondence in Welsh

- How serious do you consider the concerns to be.

Any issue which has the potential to affect the confidence of those using our systems to support patient care is very important and this is reflected in the concerns which are being raised and the clarity which is being sought from Boards in terms of prompt reporting in relation to the causes of incidents and the changes which have been made to avoid the issues in the future.

- Why is it taking so long for NWIS to complete and report back on investigations into specific incidents.

The Trust is unable to comment on specific reasons and suggest this is a matter for NWIS to respond on.

- What are the main reasons for these outages, and is there hard evidence that underlying infrastructure issues are a significant factor.

In terms of the outages on a wider basis than the Trust, I'm not aware that there is one specific issue but Andrew Griffith's letter to ABMU does refer. Improvements have been made already, further improvements are planned and an external review of the datacentres has been commissioned. The role of the Infrastructure Management Board which is chaired by a Health Board representative in overseeing NWIS' planned changes in the national infrastructure and incidents and reporting key issues to IPAD and NIMB has recently been strengthened

In terms of Velindre NHS Trust the issues relating to CANISC are further complicated as result of the systems age and design. As a consequence of this it has been reflected in the national informatics risk register and a plan has been developed, facilitated through the Cancer Network, and is being implemented to replace the system. This has meant that the Trust is now utilising the National instance of the Welsh Clinical Portal, which enables the service to take advantage of other functionality such as access to the Welsh Care Record Service, GP Summary Report, the ability to view Test Results and is currently in the process of piloting the Medicines Transcribing and electronic Discharge module.

In terms of further technical solutions, we are actively working with Health Board colleagues and NWIS to deliver more information currently stored within Canisc into the Welsh Care Records Service so that this will be visible through the Welsh Clinical Portal across Wales. Furthermore, over the next two years we will continue to prepare the Cancer Centre for the transition away from Canisc and to using the Welsh Patient

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg
This Trust welcomes correspondence in Welsh



Velindre NHS Trust Headquarters
Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG Felindre

2 Charnwood Court
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Cardiff
CF15 7QZ

Tel/Ffon : (029) 2061588
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

Administration System and the Welsh Clinical Portal as the clinical interface, which will not only remove the Canisc vulnerabilities it will also enhance the visibility of Information across organisational boundaries.

Hopefully this will provide you with the details you require

Yours sincerely

Steve Ham
Chief Executive

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg
This Trust welcomes correspondence in Welsh



Our ref: SH-rg/2018-19

20th June 2018

Tracy Myhill
Chief Executive
ABMU Health Board
Headquarters
One Talbot Gateway, Seaway Parade,
Port Talbot
SA12 7BR

Dear Tracy,

My sincere apologies for the delay in my response to your letter from 27th April noting concerns raised by your Board about NWIS.

As you are aware the Trust hosts NWIS on behalf of Welsh Government and the assurances you seek relate to areas that sit outside our responsibility within these arrangements.

I forwarded your letter to Andrew Griffiths and following agreement with Welsh Government I'm aware that he has responded to you directly.

If there is anything further that I can do to help please let me know.

Yours sincerely



Steve Ham
Chief Executive

Cc: Frances Duffy, Director of Primary Care & Innovation
Andrew Griffiths, Director of NHS Wales Informatics Service

Tracy Myhill
Chief Executive
ABMU Health Board
Headquarters
One Talbot Gateway, Seaway Parade
Port Talbot
SA12 7BR

12th June 2018

Dear Tracy

NWIS Business Continuity Incidents

Further to your letter of 27th April 2018, addressed to Steve Ham in Velindre NHS Trust, I have set out below a response to the concerns raised from the perspective of the NHS Wales Informatics Service. As the Director of the Informatics Service, I am acutely aware of the impact of any service outage and consider myself personally responsible for ensuring that issues are addressed comprehensively and in a timely fashion. I am therefore keen to ensure that you have the information needed in order to assure yourselves that actions have been and continue to be taken in the manner that you would expect and I am happy to discuss any of these points further with you directly if that would be helpful.

Firstly, with regard to the issues themselves and the analysis of their cause and the corrective actions taken, I have attached to this letter the Serious Incident Report into the incident that occurred on 24th January 2018 and a further Briefing Document following the incident on 21st March 2018. You will note that both incidents have been fully investigated, involving the third party suppliers where applicable, and a number of corrective actions have already been undertaken.

You mention in your letter the option to failover services, in this case the WLIMS; as you would expect the design of the infrastructure allows for failover to an alternative data centre. In the case of WLIMS, the complexity of the service and the process required to failover can take a number of hours to complete and therefore a 2 hours contingency has been introduced during which time a decision is made. A decision to failover is only made if expectations of outage exceed this time.

We recognise that in the event of any loss of service pro-active communications are key and that was certainly the case with the two incidents in the data centre. At a senior management level we link in with the Assistant Directors of Informatics, in these two cases arranging regular telephone calls to update on the situation, and subsequently to share the outcome of the investigations via the Informatics Planning and Delivery Group (IPAD) forum; As well as issuing a notification as soon as the

incident occurs and regular updates via our Service Desk to the Health Board Service Desks for local escalation.

I note in the ABMU Debrief Report the point was raised about the lack of any notification to the Health Board Communications Team *“and therefore, dealing with media enquiries was difficult, particularly with regard to the queries in relation to Cyber Security.”* This is currently being considered as part of the procedural review with Welsh Government, as this is not currently an action assigned to NWIS; In the majority of cases I would anticipate that the Health Board will be better placed to understand the specific impact on their services of any issues with their IT Services and we respect your decisions in terms of wider communications.

The Infrastructure Management Board, whose members include representatives from all of the Health Boards and Trusts, in ABMU’s case Carl Mustad, has discussed these issues in detail and has overseen all activities in terms of both the remedial actions as well as the additional measures that we are taking for further assurance.

In addition to regular audits in relation to our ISO Accreditation status for ISO 20000-1 IT Service Management Systems, NWIS already has a number of external technical audits that are undertaken periodically on key components of the infrastructure. These include an Active Directory Risk Assessment, Exchange (Email) risk assessment and Microsoft SQL (Database) supportability reviews. Work to commission external reviews of the following is also now underway:

- Data Centre Networks and Firewalls
- NWIS Citrix estate (used in the delivery of LIMS, WPAS, CANISC and others).
- Backup systems

To provide additional assurance and identify any further remedial actions.

In summary we have had very few incidents in the provision of data centre services across NHS Wales but we are very aware of the impact of any disruption in service provision and have taken actions not only to ensure that the specific issues have been addressed but also to ensure that the resilience of these services is robustly tested and any additional measures taken. In doing so, we work closely with the Health Boards through the Infrastructure Management Board, Service Management Boards, IPAD and the National Informatics Management Board and I will ensure that we continue to do so.

I am happy to discuss any of these points further when we meet on 11th July 2018.

Yours Sincerely



Andrew Griffiths

Chief Information Officer NHS Wales
Director of NHS Wales Informatics Service

cc: Hamish Laing
Matt John

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group**

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

03 Gorffennaf 2018

Annwyl Gadeirydd

Y Gwasanaeth Awyr Oddi Mewn i Gymru

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 28 Mehefin, gweler ynghlwm yr wybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad o ran prydlondeb y gwasanaeth awyr a nifer y teithiau a ganslwyd oherwydd rhesymau technegol o gymharu â pherfformiad y gwasanaeth dan weithredwyr eraill ers 2014.

Rwy'n ymddiheuro am yr oedi o ran darparu'r wybodaeth hon.

Yn gywir

ANDREW SLADE

Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

Contract	No. of Flights	Punctuality - % on time	Technical cancellations
LinksAir - Dec 2014 to Jan 2016	924	96.6%	10
North Flying - Jan 2016 to Feb 2016	50	96.0%	0
Van Air - Feb 2016 to Sep 2016	588	88.0%	2
Van Air - Sep 2016 to Feb 2017	389	89.6%	3
Eastern Airways - Mar 2017 - May 2018*	1160	94.5%	8

* data supplied by Eastern Airways up to latest available month

The table above shows the number of flights operated, the punctuality performance and the number of cancellations due to technical reasons for each operator of the Cardiff to Anglesey PSO air service from December 2014 to May 2018.

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru

Mehedin 2018

Rydym yn croesawu'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r argymhellion yn yr adroddiad.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau ei rheolaethau i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus mewn perthynas â:

- Deall y berthynas rhwng y rheini sy'n derbyn cyllid a'u contractwyr a'u cyflenwyr;
- Cynnwys gofynion yn yr amodau cyllido i'r perwyl bod yn rhaid i'r rheini sy'n cael cyllid sefydlu rheolaethau i sicrhau bod eu contractwyr a'u cyflenwyr yn rhoi gwerth am arian, a bod yn rhaid iddynt hefyd gyflwyno tystiolaeth i Lywodraeth Cymru i ddangos eu bod yn gweithredu mewn ffordd effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â:
 - Hawliadau sy'n ymwneud â thaliadau am wasanaethau ar sail taliadau cadw, i sicrhau bod y gwasanaethau wedi cael eu darparu;
 - Hawliadau am daliad sy'n ymwneud â chwmnïau neu unigolion sy'n bartion cysylltiedig, p'un a ydynt yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar yr hawlydd ai peidio neu ar y ffordd y caiff y prosiect a ariennir ei gynnal.

DERBYN – Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen iddi, o dan rai amgylchiadau penodol, gryfhau ei harferion rheolaeth er mwyn sicrhau gwerth am arian cyhoeddus, gan gydnabod bod y rhaid i unrhyw gamau gweithredu fod yn gymesur â'r risg a bod cofnod clir ohonynt. Wedi dweud hynny, byddai angen gormod o adnoddau i asesu'r holl sefydliadau a allai fod yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r sawl sy'n cael cyllid. Ni fyddai hynny'n sicrhau gwerth am arian oherwydd y byddai'r gost yn fwy na'r risgiau posibl.

Aeth Llywodraeth Cymru ati ym mis Ebrill 2017 i newid y broses o wneud cais am Gyllid Busnes, a bellach mae gofyn i ymgeiswyr nodi'n glir a fydd arian Llywodraeth Cymru yn cael ei dalu i gwmnïau cysylltiedig am nwyddau a/neu wasanaethau. Sefydlwyd proses diwydrwydd dyladwy ychwanegol ar gyfer achosion lle mae yna gwmnïau cysylltiedig. Lle bo hynny'n briodol, bydd amodau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y cytundeb cyllido er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Mae'n ofynnol eisoes o dan gytundeb cyllido safonol Llywodraeth Cymru i'r rheini sy'n cael cyllid ddangos eu bod wedi sicrhau gwerth am arian oddi wrth eu contractwyr a'u cyflenwyr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen cryfhau asesiadau o werth am arian, yn enwedig pan fo taliadau cadw wedi cael eu talu. Byddwn yn cynnal ymarfer i ystyried y mater hwn yn fwy manwl, gan gynnwys y prosesau y gellir eu sefydlu er mwyn i brosiectau cymhleth fedru dangos bod gweithgareddau sy'n cael eu caffael yn rhoi gwerth am arian. Bydd yr arferion gorau sy'n rhan o'r gofynion caffael a roddwyd ar waith gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn cael eu hystyried yn ystod yr ymarfer hwnnw. Bydd cynnal profion i sicrhau bod y gwasanaethau a/neu'r nwyddau wedi cael eu darparu

mewn gwirionedd yn rhan o unrhyw broses a sefydlir, yn enwedig os oes taliadau cadw dan sylw. Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor unwaith y bydd yr ymarfer hwn wedi'i gwblhau.

Gweithredu: Erbyn diwedd mis Mawrth 2019

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod y trefniadau cyllido ar gyfer prynu FTR yn cael eu defnyddio fel astudiaeth achos at ddibenion hyfforddiant mewnol gan Lywodraeth Cymru, o ystyried y penderfyniadau anghonfensiynol iawn a wnaed ar lefel swyddogol, y diffyg dogfennaeth ategol a methiant swyddogion i ofyn am y gymeradwyaeth ofynnol gan eu Gweinidog a chael y gymeradwyaeth honno.

DERBYN – Bydd y cyllid i brynu FTR yn cael ei ddatblygu'n astudiaeth achos i'w ddefnyddio mewn sesiynau hyfforddiant mewnol priodol, gan gynnwys gydag aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil yng Ngrŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn gynnar yn yr Hydref 2018.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei bod wedi adennill y £100,000 o'r cyfrif ysgrow.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd y £100,000 a oedd yn y cyfrif ysgrow. Mae wedi comisiynu cyngor cyfreithiol i weld a yw'r £100,000 yn dal yn y cyfrif ysgrow neu a gafodd y cyllid ei fforffedu pan ddaeth yr opsiwn ar y tir i ben. Mae'n awyddus hefyd i weld a ellir adennill y £100,000 yn y pen draw. Byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor am ganlyniad y cyngor hwn maes o law.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gofyniad cytundebol yn cael ei gynnwys ar gyfer taliadau yn y dyfodol a wneir i dalu am wariant cymwys sy'n gysylltiedig â chyfrifon ysgrow os bydd prosiect yn methu

DERBYN – Gall defnyddio cyfrif ysgrow fod yn ffordd effeithiol o liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau pan fo trafodiadau'n rhai amodol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y bydd amodau cyllido priodol yn cael eu pennu pan ddefnyddir cyfrif ysgrow fel rhan o becyn cyllido yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu lliniaru. Bydd yr amodau cyllido hynny'n cynnwys y gallu i adennill cyllid o'r cyfrif ysgrow os bydd prosiect yn methu.

Gweithredu – Medi 2018

Argymhelliad 5. Ar gyfer pob prosiect lle ceir risg sylweddol neu symiau mawr o arian, rydym yn argymhell bod gofyniad i ymgeiswyr ddewis i'w datganiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol gael ei gynnwys yn amodau cyllido Llywodraeth Cymru, a bod y telerau hyn yn cael eu gorfodi'n llym fel rhan o drefniadau monitro parhaus cadarn.

DERBYN – Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i fabwysiadu a defnyddio rheolaethau mewn ffordd ddeallus a hyblyg sy'n gymesur â maint a chymhlethdod y prosiect, er mwyn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd Llywodraeth Cymru yn cryfhau trefniadau asesu risg ar lefel y prosiect a phan fo hynny'n briodol, bydd yn

gosod amod i'r perwyl bod yn rhaid darparu cyfrifon a fydd wedi'u harchwilio'n annibynnol. Bydd hefyd yn gorfodi unrhyw amodau o'r fath. Os na ellir darparu cyfrifon a fydd wedi'u harchwilio'n annibynnol, bydd tystiolaeth ychwanegol yn cael ei defnyddio yn ystod y cam hawlio, er enghraifft, yr angen i ddarparu Tystysgrif Cyfrifydd Annibynnol i ddangos bod gwariant wedi'i dalu'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido nifer sylweddol o brosiectau bob blwyddyn ac mae cyfran uchel o'r prosiectau hynny'n cael eu cynnal gan fentrau bach a chanolig. Yn achos endid bach neu hyd yn oed un canolig, gallai mynnu bod archwiliad yn cael ei gynnal fod yn gryn faich ariannol ar y busnes. Hefyd, gall y broses statudol ar gyfer cofnodi cyfrifon archwiliedig gymryd hyd at naw mis felly go brin y byddai cofnodion archwiliedig cyfredol ar gael.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau ei threfniadau er mwyn sicrhau bod modd i staff, pryd bynnag y bydd ganddynt bryderon am gyfarwyddiadau gan swyddogion awdurdodi, godi'r pryderon hynny gydag uwch reolwr annibynnol a bod yn hyderus i wneud hynny

DERBYN – Mae gan Lywodraeth Cymru brosesau cadarn eisoes ar gyfer mynd i'r afael â phryderon o'r fath. Rhaid i swyddogion Llywodraeth Cymru gydymffurfio â Chod y Gwasanaeth Sifil (<https://beta.llyw.cymru/cod-y-gwasanaeth-sifil>). Lle bo hynny'n briodol, gellir uwchgyfeirio pryderon drwy bolisi chwythu'r chwiban Llywodraeth Cymru, sy'n defnyddio'r panel annibynnol ar chwythu'r chwiban. (<https://gov.wales/docs/decisions/2016/government/160824at1sn10602doc1.pdf>). Mae'r ffaith bod polisi chwythu'r chwiban yn bodoli, a'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ragweithiol, yn grymuso staff i gymryd y camau priodol.

Byddwn yn defnyddio nifer o ddulliau cyfathrebu i dynnu sylw staff Llywodraeth Cymru at bwysigrwydd cydymffurfio â Chod y Gwasanaeth Sifil a hefyd at y ffaith bod modd uwchgyfeirio pryderon. Bydd y dulliau cyfathrebu hynny'n cynnwys erthyglau ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru a sesiynau hyfforddiant mewnol priodol.

Caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2018, a'i ddilyn yn rheolaidd wedi hynny.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylid atgoffa holl Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion a holl Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru o'r gofynion yn y Codau Gweinidogol a Gwasanaeth Sifil i sicrhau cywirdeb yr holl wybodaeth a ryddheir.

DERBYN – Byddwn yn mynd ati, drwy sesiynau briffio a hyfforddiant priodol, i atgoffa holl Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru pa mor bwysig yw hi eu bod yn sicrhau cywirdeb yr holl wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau.

Mae Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am y Cod Gweinidogol – cafodd y fersiwn ddiweddaraf ei chyhoeddi a'i hanfon atynt gan y Prif Weinidog ym mis Tachwedd 2017.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn safoni'r defnydd o'r mecanwaith "grŵp sicrwydd mewnol" ar gyfer pob penderfyniad buddsoddi cymhleth, newydd neu fawr yn y dyfodol.

DERBYN – Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn eisoes fod manteision i'r drefn o ddefnyddio "grŵp sicrwydd mewnol" ar gyfer y prosiect hwn. Bydd yn cael ei safoni ar gyfer pob penderfyniad buddsoddi cymhleth, newydd neu fawr yn y dyfodol.

Gweithredu: Rhagfyr 2018

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu methodoleg fwy soffistigedig i werthuso effaith economaidd gyffredinol prosiectau a allai gael cymorth ariannol gan y sector cyhoeddus, gan gynnwys dadansoddiad cadarn o rannu risgiau a manteision, a gwerth am arian gwarantau benthyciadau ac opsiynau cyllido eraill nad ydynt yn ymwneud â grant.

DERBYN – Bydd ein ffordd newydd o ymdrin ag achosion busnes, sy'n dilyn y canllawiau yn Llyfr Gwyrdd diwygiedig y Trysorlys a'r dogfennau ategol, yn mynd i'r afael â'r egwyddorion hyn.

Rydym yn cefnogi'r broses o roi'n ffordd newydd o ymdrin ag achosion busnes ar waith drwy'r Rhwydwaith Gwell Achosion Busnes, sy'n annog sector cyhoeddus Cymru i gydweithio ac i rannu'r arferion gorau wrth greu neu asesu achosion busnes. Rydym wrthi hefyd yn gwella'n gallu ym maes dadansoddi economaidd drwy recriwtio rhagor o economegwyr a gweithio gyda phartneriaid allanol.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a lanswyd yn ddiweddar, yn amlinellu model gweithredu newydd a fydd yn hyrwyddo twf cynhwysol ac yn diogelu busnesau at y dyfodol. Mae'n canolbwyntio ar fuddsoddiad ac iddo ddiben cymdeithasol, a hanfod y ffordd newydd hon o weithio fydd y Contract Economaidd, a fydd, o'r adeg y gwneir y cyswllt cyntaf un, yn ein helpu i feithrin perthynas newydd a chryfach gyda busnesau er mwyn hyrwyddo twf cynhwysol ac ymddygiad cyfrifol yn y byd busnes.

Bydd defnyddio'r canllawiau diwygiedig, mabwysiadu ffordd newydd o weithio, ynghyd â rhagor o herio mewnol, yn helpu i roi sicrwydd ychwanegol am yr effeithiau economaidd a fydd yn deillio o fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio gyda Thrysorlys ei Mawrhydi a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i weld a oes modd gwella'r canllawiau cyhoeddedig ar bwysoliad risg prosiectau o'r math hwn er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl berthnasol mewn cyd-destun datganoledig.

DERBYN – Mae'r canllawiau ar bwysoli risg i'w gweld yn Llawlyfr Eurostat ar Ddiffyg a Dyledion Llywodraethau (MGDD, 2016), sy'n gymwys ar lefel yr UE. Caiff y Llawlyfr hwn ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Bydd y gweithgor a sefydlwyd gan Eurostat i ddiweddarau'r Llawlyfr yn mynd ati yn y man i wella'r canllawiau.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartion perthnasol i sefydlu polisi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phrosiectau mawr, a fydd yn nodi ffynonellau cyngor posibl megis ONS, IPA.

DERBYN – Er mai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ac yn y pen draw Eurostat) sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, ac er bod ganddi eisoes fframwaith clir ar gyfer gwneud hynny, cydnabyddir y dylid mynd ati i sicrhau eglurder o ran y prosesau mewnol sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cael a rhoi cyngor ar gategoreiddio ac ar gyfer rheoli gwaith categoreiddio risg. I'r perwyl hwnnw, bydd y prosesau mewnol hyn yn cael eu trafod, eu cytuno a'u cofnodi gan Gyfarwyddwyr Cyllid erbyn mis Rhagfyr 2018.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu arfer safonol o sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cytuno ar gywirdeb ffeithiol nodiadau cyfarfodydd adeg eu drafftio.

DERBYN – Pan fydd nodiadau a gymerir ar y pryd yn cael eu cadw fel rhan o'r trywydd archwilio sy'n gysylltiedig â phrosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru, byddant yn cael eu rhannu â'r partïon perthnasol adeg eu drafftio er mwyn cadarnhau eu bod yn ffeithiol gywir. Bydd pwysigrwydd darparu trywydd archwilio cywir a chydredol yn cael eu hatgyfnerthu mewn sesiynau hyfforddiant priodol ar gyfer staff.

Argymhelliad 13. O gofio'r Trefniant Gwirfoddol ar gyfer Credydwy'r a statws ariannol ansicr HOVDC, mae angen eglurhad ar y Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru o'r camau y mae'n eu cymryd i adennill y ddyled o £7.3m gan HoVDC sy'n deillio o warant benthyciad Llywodraeth Cymru.

DERBYN – Mae Llywodraeth Cymru yn un o gredydwy'r sicredig HOVDC yn sgil y ddyledeb dros y cwmni a'i is-gwmnïau uniongyrchol. Cyflwynwyd hysbysiad i'r cwmni ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r telerau sy'n gysylltiedig â Chyllid Llywodraeth Cymru, felly mae gennym yr hawl i gyflwyno hawliad ffurfiol neu i ddwyn achos yn unol â'r sicrwydd sydd gennym. Mae swyddogion wrthi'n trafod â swyddogion gweithredol Santander plc, a chan mai ganddyn nhw y mae'r hawl i'r tâl cyntaf, byddai'n rhaid iddynt gytuno cyn i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw gamau o dan y ddyledeb. Mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir pe bai Santander yn awyddus i weithredu.

Deallwn fod nifer o gynigion i fwrw ymlaen â'r prosiect wedi cael eu cyflwyno gan y sector preifat yn ystod y misoedd diwethaf. Er na chafwyd unrhyw gais am gymorth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru, mae un o'r hyrwyddwyr posibl wedi nodi y byddai'n dymuno gweld Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gytundeb i ryddhau'r sicrhaf fel y bo modd bwrw ymlaen â'r prosiect. Yn gyfnewid am hynny, byddai'n cael budd ariannol yn y busnes newydd, a gallai hynny ad-dalu'r ddyled dros amser. Rydym yn aros am ganlyniad y trafodaethau rhwng yr hyrwyddwr newydd hwn a'r Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau'n ymwneud â'r ddyled (yn amodol ar ofynion cyfrinachedd masnachol).

Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon